



Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

Strategaeth i Gymru: 2024–2029

*Gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru drwy alluogi cleifion
i gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau*



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English



Cynnwys

Rhagair	2
Cyflwyniad.....	3
Cefndir Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan	3
Is-grwpiau AWMSG a Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan.....	3
Ein Strategaeth flaenorol: 2018–2023	4
Y pum mlynedd nesaf: 2024–2029	4
Cipolwg ar ein Strategaeth	7
Ein gweledigaeth.....	8
Ein cenhadaeth	8
Ein hegwyddorion	8
Ein huchelgeisiau	9
Nodau.....	10
Nod 1 – Mae cyngor, adnoddau ac arweiniad yn adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion pobl a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yng Nghymru.....	10
Nod 2 – Mae cyngor, adnoddau ac arweiniad AWMSG yn cael eu lledaenu, eu hyrwyddo'n eang a'u gweithredu'n rheolaidd.....	11
Nod 3 - Defnyddir data a thechnoleg i wella gwerth, canlyniadau cleifion a diogelwch	12
Nod 4 – Mae prosesau asesu meddyginiaethau yn drylwyr, yn amserol ac yn sicrhau gwerth	14
Nod 5 – Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn derbyn hyfforddiant o ansawdd uchel yn y defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau	15
Nod 6 - Mae pobl yng Nghymru yn cymryd eu meddyginiaethau mewn ffordd sy'n gwneud yn fawr o'u canlyniadau iechyd	16
Nod 7 – Lleihau gwastraff sy'n gysylltiedig â defnyddio meddyginiaethau a gwella cynaliadwyedd	18
Nod 8 – Mae manteision meddyginiaethau manwl ar sail geneteg yn cael eu gwireddu yng Nghymru	19
Amcan cyffredinol – Datblygu dangosyddion llwyddiant	20
Y camau nesaf	21

Rhagair

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno Strategaeth AWMSG ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu pwysau digynsail – yn glinigol, ariannol a chymdeithasol. Ni fu erioed mwy o bwysau i ddosbarthu'r meddyginiaethau iawn i'r bobl iawn cyn gynted â phosibl. Er ei fod yn aml yn drawsnewidiol, mae dyfodiad meddyginiaethau manwl gywir wedi creu heriau sy'n fwy na dim ond darparu'r feddyginiaeth. Mae sganio'r gorwel yn gywir yn hanfodol ar gyfer dosbarthu a chynllunio ariannol ar gyfer meddyginiaethau newydd. Mae ansicrwydd sylweddol ynghylch modelau ariannu meddyginiaethau cost uchel yn y dyfodol, yr angen tebygol am batrymau newydd ar gyfer ariannu meddyginiaethau a phryderon byd-eang ynghylch y gadwyn cyflenwi meddyginiaethau. Rhaid i AWMSG sicrhau bod eu blaenoriaethau strategol yn mynd i'r afael â'r heriau hyn a chefnogi'r GIG i ddiwallu anghenion pobl Cymru.

Mae'n amserol ac yn bwysig felly bod AWMSG wedi lansio ei Strategaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Ni fu ei rôl o ran cynghori Llywodraeth Cymru ar y defnydd gorau o feddyginiaethau erioed mor bwysig os yw Cymru am wneud y gorau o'r gwerth y mae'n ei chyflawni o'i buddsoddiad mewn meddyginiaethau.

Yn ganolog i hyn mae nod AWMSG i roi anghenion pobl Cymru wrth galon ei genhadaeth, gyda lleisiau cleifion a'r cyhoedd yn bwydo i mewn i'r holl ffrydiau gwaith a'r penderfyniadau a wneir. Mae'r wyth nod yn uchelgeisiol, ond credaf drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a gweithio'n agos gyda sefydliadau cenedlaethol y byddwn yn cyflawni ein huchelgeisiau. Rwy'n gobeithio y bydd rhanddeiliaid yn gefnogol i weledigaeth AWMSG i wella iechyd a llesiant pobl Cymru drwy alluogi cleifion i gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau.

Hoffwn gydnabod a diolch am y cyfraniad sylweddol y mae llawer o bobl wedi'i wneud i'r ddogfen hon. Mae wedi bod yn broses ailadroddol i gyrraedd y ddogfen derfynol hon, a rhoddodd aelodau AWMSG gyngor hollbwysig, yn enwedig ar gynnwys llais y claf. Diolch hefyd i randdeiliaid allanol gan gynnwys yr ABPI a roddodd adborth defnyddiol ac adeiladol. Ac yn olaf, diolch i staff AWTTTC am eu brwdfrydedd wrth gydlynw'r gwahanol gydrannau a chyfranwyr.



Yr Athro Iolo Doull
Cadeirydd AWMSG



Cyflwyniad

Cefndir Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan

Sefydlwyd Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn 2002 i gynghori Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio, rheoli a phresgripsiynu meddyginiaethau yng Nghymru. Mae gwaith AWMSG yn perthyn i bedwar maes eang:



helpu pobl i gael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau



[galluogi mynediad](#) at y meddyginiaethau cywir ar yr amser cywir



lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a gwella diogelwch meddyginiaeth



gwneud yn fawr o'r gwerth y mae GIG Cymru yn ei gyflawni o'i fuddsoddiad mewn meddyginiaethau.

Yn fwy penodol, mae AWMSG yn gyfrifol am:

- ragweld datblygiadau yn y defnydd o feddyginiaethau a'u heffaith ar GIG Cymru
- cynghori ar argaeledd meddyginiaethau/fformiwleiddiadau newydd perthnasol a meddyginiaethau presennol gydag arwyddion newydd, a'r goblygiadau gwariant tebygol o sicrhau bod y meddyginiaethau hyn ar gael fel mater o drefn yn GIG Cymru
- monitro tueddiadau mewn ymarfer presgripsiynu a chynghori GIG Cymru o fesurau y gellid eu cyflwyno i sicrhau gwelliannau yn ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd y gofal a ddarperir.

Mae cynrychiolaeth ddaearyddol eang o bob rhan o Gymru ar y Grŵp, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys meddygon, nyrsys, fferyllwyr, aelodau lleyg, economegwyr iechyd, cyfarwyddwr cyllid a chynrychiolydd diwydiant fferyllol sy'n cyfuno eu harbenigedd a'u gwybodaeth i wneud penderfyniadau ar y defnydd gorau o feddyginiaethau yn GIG Cymru.

Is-grwpiau AWMSG a Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Mae tri is-grŵp cynghori yn adrodd i AWMSG ac yn darparu cyngor arbenigol: y Grŵp Meddyginiaethau Newydd, Grŵp Presgripsiynu a Chynghori Cymru Gyfan a Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru'n Un. Mae gwneud penderfyniadau yn ystyried y dystiolaeth orau sydd ar gael, a chyflwynir argymhellion, adnoddau ac adroddiadau i AWMSG i'w hystyried a'u cymeradwyo.

Mae Pwyllgor Llywio AWMSG yn cynllunio ac yn blaenoriaethu rhaglen waith y pwyllgor gyda mewnbwn gan randdeiliaid allweddol.

Gallwch ddarganfod rhagor am is-bwyllgorau AWMSG ar [wefan Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan \(AWTTC\)](#). Mae AWTTC yn cydlynu rhaglen waith AWMSG; yn darparu cefnogaeth glinigol, wyddonol a gweinyddol i AWMSG a'i is-grwpiau.

Ein Strategaeth flaenorol: 2018–2023

Gallwch ddarllen a lawrlwytho strategaethau blaenorol AWMSG ar [wefan AW TTC](#). Diffiniodd Strategaeth Pum Mlynedd AWMSG 2018–2023 nodau AWMSG ar gyfer y pum mlynedd blaenorol a darparu fframwaith i AWMSG gyflawni ei nodau.

Roedd cyhoeddiad pandemig COVID-19 byd-eang gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Mawrth 2020 yn golygu bod yn rhaid adleoli adnoddau AW TTC i gefnogi GIG Cymru drwy'r cyfnod tyngedfennol hwn ac roedd angen ail-flaenoriaethu gwaith. Roedd hyn yn golygu newid ffocws a symud i ragor o gydweithio â'n partneriaid, gyda AWMSG a AW TTC yn addasu ac yn ymateb yn gyflym i alw mewnol ac allanol. Er gwaethaf heriau'r pandemig, llwyddodd AWMSG i gyflawni'r mwyafrif helaeth o'i nodau trwy weithio o fewn [egwyddorion gofal iechyd darbodus](#).

Am ddadansoddiad manylach o'r hyn a gyflawnwyd bob blwyddyn yn unol ag argymhellion Strategaeth 2018–2023, darllenwch Adroddiadau Blyneddol AWMSG sydd ar gael ar [wefan AW TTC](#).

Y pum mlynedd nesaf: 2024–2029

Wrth edrych i'r dyfodol, mae angen i GIG Cymru warchod, cryfhau a gwella gwasanaethau er gwaethaf pwysau ariannol cynyddol; mae angen i'r gwaith hwn addasu i'r pwysau presennol hefyd a pharatoi ar gyfer yr heriau sy'n wynebu GIG Cymru yn y dyfodol. Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2023, o'r enw '[Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy: Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru](#)', yn dangos yn glir yr ystod o heriau ar y gorwel sy'n cael eu gyrru gan boblogaeth sy'n heneiddio a chyfran gynyddol o unigolion sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor.

Bydd AWMSG yn helpu GIG Cymru i ddefnyddio datblygiadau mewn technoleg yn llawn ac argaeledd data i ysgogi newid ac arloesi; gan alluogi gofal i gael ei ddarparu'n nes at y cartref a lleihau'r amser y mae cleifion yn ei dreulio yn yr ysbyty. Bydd AWMSG hefyd yn addasu i'r dirwedd feddyginiaethol newidiol drwy esblygu eu prosesau asesu i sicrhau bod cyngor ar gael i alluogi mynediad amserol i feddyginiaethau sydd eu hangen yn glinigol. Wrth i nifer y therapïau datblygedig a'r meddyginiaethau manwl sy'n derbyn cymeradwyaeth reoleiddiol y DU gynyddu, mae'n rhaid i AWMSG sicrhau bod prosesau sganio'r gorwel Cymru Gyfan yn cynorthwyo byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau trwy ddarparu gwybodaeth gynnar i gefnogi gweithredu canllawiau AWMSG a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), gan gynnwys nodi unrhyw wasanaethau ychwanegol y gallai fod eu hangen.

Bydd datblygiadau arloesi ym maes gwyddoniaeth, ymchwil a data yn parhau i gefnogi AWMSG yn eu penderfyniadau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd rhagor o argaeledd data'r byd go iawn yn gwella gwerthuso meddyginiaethau a gofal iechyd yng Nghymru ac yn rhoi darlun mwy addysgiadol ar effaith meddyginiaethau ar ganlyniadau cleifion. Bydd ymchwil yn sicrhau bod AWMSG yn aros ar flaen y gad o ran datblygiadau meddygol a dulliau gofal iechyd, gan sicrhau bod cleifion yn cael y gofal gorau posib. Bydd ymchwil yn

ganolog i gyflawni llawer o'r amcanion ac mae AWMSG yn annog partneriaid allweddol i ymgymryd ag ymchwil i gefnogi eu gwaith lle bynnag y bo modd.

Mae dull sy'n 'canolbwyntio ar yr unigolyn' tuag at ofal iechyd yn ganolog i'r holl nodau ac amcanion a nodir yn y Strategaeth hon a bydd y broses gydweithredol o wneud penderfyniadau ar y cyd yn allweddol i sicrhau bod AWMSG yn llwyddo i gyflawni eu huchelgeisiau. Rhaid i unrhyw ddatblygiadau a allai gael eu gyrru gan y Strategaeth hon sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynghylch eu gofal, eu bod yn cael eu cefnogi i reoli eu hiechyd eu hunain yn rhagweithiol ac, yn fwy penodol, eu bod yn gallu cyflawni'r canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau eu hunain. Er budd cenedlaethau'r dyfodol, rhaid i ni ymrwymo'n llwyr i leihau'r effaith amgylcheddol negyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio meddyginiaethau, lleihau anghydraddoldebau iechyd sy'n deillio o anafanteision economaidd-gymdeithasol a hyrwyddo mesurau gofal iechyd ataliol (e.e. ymyriadau addysg iechyd a ffordd o fyw) ar bob cyfle.

Fel y soniwyd eisoes, mae GIG Cymru dan bwysau ariannol digynsail. Am y rheswm hwn, mae gwneud yn fawr o'r gwerth y mae GIG Cymru yn ei gyflawni o'i feddyginiaethau yn uchelgais canolog i'r Strategaeth hon. Mae gan AWMSG, wrth weithio gyda'i sefydliadau partner, y cyfle i wireddu arbedion effeithlonrwydd posib sylweddol ar draws GIG Cymru.

Ym mis Tachwedd 2023, cytunwyd ar y [Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio \(VPAG\)](#) gan Lywodraeth y DU, GIG Lloegr, a Chymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI) a bydd yn rhedeg am bum mlynedd rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2028. Nod y cynllun yw galluogi cleifion i gael mynediad at y triniaethau diweddaraf yn fwy cyson, a rhoi hwb i safle'r DU fel pŵer byd-eang mewn gofal iechyd uwch, technoleg ac ymchwil glinigol. Fel rhan o'r trafodaethau hyn, bydd buddsoddiad sylweddol mewn gwyddorau bywyd gan ddiwydiant ar gael i NICE, Scottish Medicines Consortium (SMC), AWTTTC ac Adran Iechyd Gogledd Iwerddon dros y pum mlynedd i gefnogi datblygiad a phrofi dulliau arloesol o asesu technoleg iechyd (HTA). Nod y fenter hon yw gwella prosesau cyn ac ar ôl asesu sy'n gysylltiedig yn benodol â mynediad at feddyginiaethau newydd a'r nifer sy'n eu derbyn. Mae'r buddsoddiad hwn yn cael ei groesawu'n fawr gan AWMSG a bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi nifer o'r nodau allweddol a gyflwynir yn y Strategaeth hon.

Bydd AWMSG yn chwarae rhan wrth sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu derbyn gwasanaethau iechyd sy'n diwallu eu hanghenion drwy ddiffinio strategaeth sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd AWMSG yn cydweithio â sefydliadau partner allweddol ym mhob rhan o GIG Cymru fel y gallwn, gyda'n gilydd, weithio tuag at gyflawni ein pedwar uchelgais: gwella canlyniadau i gleifion; sicrhau bod y meddyginiaethau cywir ar gael ar yr adeg gywir; lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a gwella diogelwch; a gwneud yn fawr o'r gwerth y mae'r GIG yn ei gyflawni o'i fuddsoddiadau mewn meddyginiaethau.

Y dirwedd strategol

Mae'r canlynol yn rhestr o strategaethau, polisiau neu egwyddorion nodedig o bob rhan o'r dirwedd gofal iechyd yn y DU, sydd wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Strategaeth AWMSG ddiweddaraf hon:

- [Egwyddorion gofal iechyd darbodus \(Comisiwn Bevan\)](#)
- [Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol \(Llywodraeth Cymru\)](#)
- [Cynllun cyflenwi strategol ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru \(Llywodraeth Cymru\)](#)
- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 \(Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru\)](#)
- [Fframwaith clinigol cenedlaethol: system ddysgu iechyd a gofal \(Llywodraeth Cymru\)](#)
- [Dyletswydd gonestrwydd y GIG \(Llywodraeth y DU\)](#)
- [Y ddyletswydd ansawdd mewn gofal iechyd \(Llywodraeth Cymru\)](#)
- [Cynllun Gwirfoddol 2024 ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio \(Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chymdeithas Diwydiant Fferyllo! Prydain\)](#)
- [Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Cymru 2017 \(Llywodraeth y DU\)](#)
 - Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol
- [Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad Terfynol \(Llywodraeth Cymru\)](#)
- [Strategaeth NICE 2021 i 2026 \(Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal\)](#)

Cipolwg ar ein Strategaeth

Egwyddorion

Canolbwyntio
ar yr unigolyn

Yn seiliedig ar
dystiolaeth

Tegwch
iechyd

Osgoi
niwed

Cydweithredu

Cynaliadwyedd

Hygyrchedd a
thryloywder

Gweledigaeth

Gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru drwy alluogi cleifion i gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau

Cenhadaeth

Byddwn yn gweithio i sicrhau gwell canlyniadau iechyd i bobl yng Nghymru drwy sicrhau mynediad amserol a chyfartal at feddyginiaethau, a datblygu a defnyddio adnoddau optimeiddio meddyginiaethau yn briodol

Strategaeth AWMSG 2024-2029

Uchelgeisiau

1. Helpu pobl yng Nghymru i gael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau
2. Galluogi mynediad i'r meddyginiaethau cywir ar yr adeg gywir i bobl yng Nghymru
3. Lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a gwella diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau ar gyfer pobl yng Nghymru
4. Gwneud yn fawr o'r gwerth y mae GIG Cymru yn ei gyflawni o'i fuddsoddiad mewn meddyginiaethau

Nod 1

Mae cyngor, adnoddau ac arweiniad yn adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion pobl a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yng Nghymru

Nod 2

Mae cyngor, adnoddau ac arweiniad AWMSG yn cael eu lledaenu, eu hyrwyddo'n eang a'u gweithredu'n rheolaidd

Nod 3

Defnyddir data a thechnoleg i wella gwerth, canlyniadau cleifion a diogelwch

Nod 4

Mae prosesau asesu meddyginiaethau yn drylwyr, yn amserol ac yn sicrhau gwerth

Nod 5

Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn derbyn hyfforddiant o ansawdd uchel yn y defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau

Nod 6

Gwell ymlyniad wrth feddyginiaethau

Nod 7

Lleihau gwastraff sy'n gysylltiedig â defnyddio meddyginiaethau a gwella cynaliadwyedd

Nod 8

Mae meddyginiaethau manwl ar sail geneteg yn cael eu gwireddu yng Nghymru

Ein gweledigaeth *Delfryd o'r hyn y mae AWMSG yn anelu at ei gyflawni*

Gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru drwy alluogi cleifion i gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau.

Ein cenhadaeth *Rheswm dros fodolaeth AWMSG a'i ddiben presennol*

Byddwn yn gweithio i sicrhau gwell canlyniadau iechyd i bobl yng Nghymru drwy sicrhau mynediad amserol a chyfartal at feddyginiaethau, a datblygu a defnyddio adnoddau optimeiddio meddyginiaethau yn briodol.

Ein hegwyddorion

Mae sawl egwyddor graidd sy'n sail i'r holl waith a wneir ac a ystyriwyd gan AWMSG. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd yn agos â [phedair Egwyddor Gofal Iechyd Darbodus](#) Comisiwn Bevan ac yn ffurfio sylfaen yr uchelgeisiau, y nodau a'r amcanion a nodir yn y Strategaeth hon.

Canolbwyntio ar yr unigolyn 	Rhoi anghenion pobl Cymru wrth wraidd ein cenhadaeth, gyda lleisiau cleifion a'r cyhoedd yn bwydo i mewn i'n holl waith a'n penderfyniadau.
Gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth 	Gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol drylwyr a pherthnasol. Monitro effaith meddyginiaethau a defnyddio data a dadansoddeg i sicrhau bod newid cadarnhaol yn cael ei gyflawni.
Tegwch iechyd 	Hyrwyddo tegwch iechyd, lleihau amrywiaeth diangen a sicrhau bod amrywiaeth y boblogaeth yng Nghymru yn cael ei hystyried.
Osgoi niwed 	Annog y defnydd priodol a diogel o feddyginiaethau.
Cydweithredu 	Ymgysylltu a chydweithio â phartneriaid strategol ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Gweithio mewn partneriaeth â chleifion a'r cyhoedd, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, a'r diwydiant fferyllol.
Cynaliadwyedd 	Ystyried effeithiau ein gwaith ar genedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy osgoi gwastraff a lleihau'r effaith amgylcheddol sy'n gysylltiedig â defnyddio meddyginiaethau.
Hygyrchedd a Thryloywder 	Manteisio i'r eithaf ar dechnoleg ac adolygu prosesau yn rheolaidd i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gyfleu'n glir ac yn hygyrch i bawb.

Ein huchelgeisiau

Mae'r datblygiadau a nodir yn y strategaeth hon yn cyfrannu at bedwar uchelgais allweddol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau AWMMSG ar gyfer 2024–2029.

Y pedwar uchelgais allweddol a fydd yn cyflawni Cymru iachach yw:



1. **Helpu pobl yng Nghymru i gael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau**

Dylai pawb gael y cyfle gorau i wireddu manteision arfaethedig y meddyginiaethau a bresgripsiynwyd iddynt, a dylid cefnogi'r claf ei hun a'i bresgripsiynydd i wireddu hynny. Lle y bo'n briodol, dylai hyn gynnwys dadbresgripsiynu meddyginiaeth pan fo risg yn gorbwyso'r budd.



2. **Galluogi mynediad i'r meddyginiaethau cywir ar yr adeg gywir i bobl yng Nghymru**

Mae'n ofynnol i feddyginiaethau sy'n glinigol ac yn gost-effeithiol fod ar gael fel opsiwn i bob person sydd angen triniaeth. Dylid gwneud penderfyniadau ar argaeledd meddyginiaethau ar sail 'unwaith i Gymru' lle y bo hynny'n briodol er mwyn osgoi dyblygu ymdrech ar draws y gwasanaeth.



3. **Lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a gwella diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau ar gyfer pobl yng Nghymru**

Nod lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau y gellir ei osgoi yw lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu, cyflenwi, monitro a chymryd meddyginiaeth. Pan fydd digwyddiad niweidiol yn digwydd, dylai systemau cadarn fod ar waith ar gyfer adrodd.



4. **Gwneud yn fawr o'r gwerth y mae GIG Cymru yn ei gyflawni o'i fuddsoddiad mewn meddyginiaethau**

O ystyried adnoddau cyfyngedig GIG Cymru, dylai pob penderfyniad, cyngor ac arweiniad y mae AWMMSG yn eu cyhoeddi fod ag ystyriaethau gwerth wrth eu gwraidd. Mae '[Cymru Iachach](#)' Llywodraeth Cymru yn diffinio gwerth uwch fel 'sicrhau gwell canlyniadau a gwell profiad i bobl am gost is.'

Nodau



Nod 1 – Mae cyngor, adnoddau ac arweiniad yn adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion pobl a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yng Nghymru

Mae'r partneriaid a fydd yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC)
- Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau
- Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC)
- Uned Gwerth Meddyginiaethau (MVU)
- Rhwydweithiau clinigol cenedlaethol (Gweithrediaeth y GIG)
- Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (JCC)
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)
- Grwpiau cleifion a'r cyhoedd (e.e. Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd AWTTC, Llais)
- Y diwydiant fferyllol
- Contractwyr gofal sylfaenol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)
- Llywodraeth Cymru
- Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (GCFC).

Bydd AWMSG yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad lle mae eu hangen fwyaf, ac yn cefnogi'r GIG wrth iddo addasu i anghenion newidiol cleifion, y cyhoedd, cyllidebau a gweithlu'r GIG. Trwy ddatblygu'r dulliau ar gyfer nodi blaenoriaethau ar gyfer GIG Cymru a blaenoriaethu gwaith y mae AWMSG a'i sefydliadau ategol yn ei wneud, y bwriad yw cyfeirio adnoddau cyfyngedig i'r meysydd hynny lle gall cyngor ac arweiniad AWMSG gael yr effaith fwyaf. Wrth wraidd y gwelliannau hyn bydd cyfathrebu dwyffordd cryfach gyda'r holl randdeiliaid.

Bydd pennu blaenoriaethau ar gyfer AWMSG yn y dyfodol yn golygu cydweithio sylweddol â'r Rhwydweithiau Clinigol Cenedlaethol sy'n cael eu sefydlu fel rhan o Raglen Gweithredu Fframwaith Clinigol Cenedlaethol Gweithrediaeth GIG Cymru. Mae'n bwysig bod AWMSG yn cael ei gydnabod fel partner gwerthfawr a all gyfrannu at fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd gan y rhwydweithiau hyn.

Amcanion

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd AWMSG yn gweithio gyda'i bartneriaid i:

- ✓ alluogi ac annog cleifion a sefydliadau cleifion, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a'r diwydiant fferyllol i ymgysylltu'n hawdd ym mhob maes o waith AWMSG

- ✓ datblygu gwell prosesau sganio'r gorwel meddyginiaethau Cymru Gyfan i gefnogi blaenoriaethu cynllun gwaith AWMSG ac i ddiwallu anghenion y GIG yng Nghymru orau
- ✓ datblygu prosesau gwell a thryloyw ar gyfer sut mae AWMSG yn blaenoriaethu'r cyngor a'r adnoddau y mae'n eu hystyried fel rhan o'i raglen waith barhaus
- ✓ defnyddio data'r byd go iawn sydd ar gael, i gefnogi penderfyniadau AWMSG a blaenoriaethu gwaith
- ✓ cefnogi gwaith sy'n diwallu anghenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chynllun Cyflenwi Datgarboneiddio GIG Cymru
- ✓ llunio cyngor ac adnoddau a fydd yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth a nodwyd
- ✓ lle y bo hynny'n briodol, cynyddu ymwybyddiaeth o ymyriadau nad ydynt yn rhai ffarmacolegol drwy eu cynnwys yng nghyngor, adnoddau ac arweiniad AWMSG.

Bydd y dangosyddion llwyddiant yn cynnwys:

- ✓ cynnydd mewn ymgysylltiad cleifion, y cyhoedd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a diwydiant fferyllol â gwaith AWMSG
- ✓ gweithredu proses sganio'r gorwel meddyginiaethau Cymru Gyfan diwygiedig
- ✓ cyhoeddi adnoddau a gymeradwywyd gan AWMSG i gefnogi meysydd blaenoriaeth a nodwyd ac yna newid mesuradwy mewn ymarfer presgripsiynu a chanlyniadau cleifion
- ✓ derbyn rhagor o adborth cadarnhaol yn dilyn cyhoeddi cyngor ac adnoddau AWMSG.



Nod 2 – Mae cyngor, adnoddau ac arweiniad AWMSG yn cael eu lledaenu, eu hyrwyddo'n eang a'u gweithredu'n rheolaidd

Mae'r partneriaid a fydd yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC)
- Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau
- Uned Gwerth Meddyginiaethau (MVU)
- Rhwydweithiau clinigol cenedlaethol (Gweithrediaeth y GIG)
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)
- Contractwyr gofal sylfaenol
- Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (GCFC)
- Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru.

Er mwyn sicrhau bod cyngor, adnoddau ac arweiniad AWMSG yn darparu'r budd mwyaf i gleifion a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, mae'n hanfodol ein bod yn eu lledaenu'n briodol. Mae AWMSG hefyd eisiau cefnogi'r gwaith o weithredu'n well ar ôl lledaenu; mae AWMSG yn cydnabod yr angen i weithio gyda'r holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru i benderfynu beth y gall ei ddarparu i liniaru'r rhwystrau presennol i roi cyngor ac arweiniad ar waith a darparu model addas ar gyfer sut y maent yn disgwyl i'w hadnoddau gael eu defnyddio.

Bydd hyn yn cynnwys cydweithio amserol ac effeithiol â rhanddeiliaid allweddol ac ymgysylltu'n agos â'r holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i sicrhau bod systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol o'r hyn sydd ar y gorwel. Trwy gyfathrebu priodol, gall AWMSG godi proffil ac ymwybyddiaeth o waith allweddol a sicrhau bod byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn hyrwyddo datblygiadau y rhagwelir y byddant yn cynnig y gwerth mwyaf. Bydd gwneud penderfyniadau cadarn a lledaenu a gweithredu'n effeithiol ar lefel Cymru Gyfan yn osgoi dyblygu ymdrech ledled Cymru a bydd yn sicrhau bod cleifion yn cael mynediad amserol at feddyginiaethau clinigol effeithiol a chost-effeithiol ac yn gwella canlyniadau iechyd i bobl yng Nghymru.

Amcanion

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd AWMSG yn gweithio gyda'i bartneriaid i:

- ✓ wella ac ehangu'r dulliau a ddefnyddir i ledaenu allbynnau AWMSG
- ✓ defnyddio'r data sydd ar gael i asesu'r defnydd o gyngor, adnoddau ac arweiniad AWMSG a'u heffaith, a defnyddio'r wybodaeth honno i ysgogi gwelliannau
- ✓ gweithio gyda'i rhanddeiliaid i benderfynu sut y gall gefnogi'r gwaith o weithredu cyngor, arweiniad ac adnoddau AWMSG orau
- ✓ treialu datblygiad offer newydd a all gefnogi'r gwaith o weithredu adnoddau optimeiddio meddyginiaethau yn dilyn eu cyhoeddi
- ✓ sicrhau bod cyngor, adnoddau ac arweiniad AWMSG yn cael eu darparu mewn fformat sy'n hygyrch i bawb sydd eu hangen.

Bydd y dangosyddion llwyddiant yn cynnwys:

- ✓ cynnydd mewn ymgysylltiad ag allbynnau AWMSG, fel y'i mesurir trwy draffig gwefan AWTTTC
- ✓ treialu a lledaenu adnoddau ategol a luniwyd gyda'r nod o gefnogi'r gwaith o weithredu allbynnau AWMSG
- ✓ treialu a gweithredu ffyrdd newydd o gyflwyno adnoddau AWMSG ar wefan AWTTTC, gyda gwell opsiynau ar gyfer hygyrchedd.



Nod 3 - Defnyddir data a thechnoleg i wella gwerth, canlyniadau cleifion a diogelwch

Mae'r partneriaid a fydd yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC)
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
- Uned Gwerth Meddyginiaethau (MVU)
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)
- Canolfan Cerdyn Melyn Cymru (CCM Cymru)
- Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru.

Mae datblygiadau mewn technoleg wedi chwyldroi'r ffordd y gallwn gasglu, prosesu a dadansoddi data. Rhaid i'r GIG yng Nghymru fanteisio ar y datblygiadau hyn a sicrhau ein bod yn gallu casglu a dadansoddi data gwerthfawr ar bresgripsiynu meddyginiaethau, y defnydd ohonynt a'u canlyniadau mewn ffordd ddiogel a chyfrifol, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r data hwnnw wedyn i gryfhau'r broses o wneud penderfyniadau a gwella gwerth ar draws y gwasanaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a fydd yn mynd â GIG Cymru ar y daith hon yn cael ei gydlyn gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) drwy ei [Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol](#) a phrosiectau fel yr [Adnodd Data Cenedlaethol](#). Bydd angen i AWMSG a DHCW weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y systemau sy'n cael eu darparu yn diwallu anghenion y gwasanaeth ond hefyd bod y data y gellir ei gasglu gan y systemau yn addas at y diben. Dylai AWMSG a DHCW sicrhau bod casglu data yn agored ac yn dryloyw a bod y data ei hun yn hygyrch i bawb sydd ei angen.

Dylai Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol a gymeradwywyd gan AWMSG barhau i fod yn arloesol yn y newidiadau presgripsiynu y maent yn bwriadu eu hysgogi a'r data y gallant eu defnyddio i fesur perfformiad. Dylai systemau ar gyfer adrodd am adweithiau niweidiol i gyffuriau barhau i gael eu gwella, a'u hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Amcanion

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd AWMSG yn gweithio gyda'i bartneriaid i:

- ✓ gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu systemau sy'n ffurfio'r Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol dan arweiniad DHCW
- ✓ sicrhau bod y dull presgripsiynu cwbl ddigidol newydd yn caniatáu casglu data priodol yn ddiogel, y gellir ei ddefnyddio wedyn i lywio a dilysu penderfyniadau yn y gorffennol a'r dyfodol
- ✓ parhau i ddatblygu Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol gan ddefnyddio'r ffynonellau data diweddaraf a mwyaf addysgiadol sydd ar gael, i ysgogi newid cadarnhaol mewn ymarfer presgripsiynu a chanlyniadau cleifion
- ✓ defnyddio data presgripsiynu sydd ar gael i nodi meysydd lle gellir gwneud gwaith i wella diogelwch, effeithlonrwydd a chanlyniadau cleifion
- ✓ nodi meysydd lle mae amrywiad diangen mewn presgripsiynu yn gysylltiedig â gyrwyr anghydraddoldebau iechyd fel amddifadedd economaidd-gymdeithasol a datblygu cyngor ac adnoddau i fynd i'r afael â'r amrywiad hwnnw
- ✓ parhau i ddatblygu a hyrwyddo systemau a thechnoleg diogelwch meddyginiaethau (e.e. llwyfannau adrodd Cerdyn Melyn).

Bydd y dangosyddion llwyddiant yn cynnwys:

- ✓ gweithredu'r pedwar maes gwaith o fewn GIG Cymru sy'n ffurfio'r Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol (gwasanaeth presgripsiwn electronig gofal sylfaenol, presgripsiynu electronig gofal eilaidd a gweinyddu meddyginiaethau, cofnod meddyginiaethau a rennir, a mynediad cleifion)
- ✓ gwell mynediad a defnydd o ddata presgripsiynu mwy addysgiadol

- ✓ lleihau amrywiad amhriodol wrth bresgripsiynu
- ✓ rhagor o ddefnydd o systemau diogelwch meddyginiaethau (e.e. llwyfannau adrodd Cerdyn Melyn).



Nod 4 – Mae prosesau asesu meddyginiaethau yn drylwyr, yn amserol ac yn sicrhau gwerth

Mae'r partneriaid a fydd yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC)
- Uned Gwerth Meddyginiaethau (MVU)
- Y diwydiant fferyllol
- Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru.

Wrth i NICE ehangu ei gylch gwaith a mabwysiadu dull cymesur o asesu technoleg iechyd, rhaid i AWMSG ymateb i ddiwallu anghenion pobl Cymru.

Bydd AWMSG yn ymateb i ddatblygiadau ym mhrosesau asesu technoleg iechyd y DU a rhyngwladol, er mwyn sicrhau bod prosesau asesu AWMSG yn parhau i ddiwallu anghenion y GIG yng Nghymru. Bydd AWMSG yn darparu cyngor ac arweiniad lle mae'r angen mwyaf a bydd yn sicrhau bod prosesau'n cyd-fynd ag arfer gorau. Bydd prosesau asesu i'w cymeradwyo yn seiliedig ar dystiolaeth, yn amserol a byddant yn rhoi gwerth i gleifion, y cyhoedd a'r GIG. Bydd ymrwymiad parhaus gan AWMSG i ymgysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chwmnïau i ddarparu cyngor sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar y GIG. Bydd AWMSG yn sicrhau bod prosesau'n hyblyg ac wedi'u mireinio i gyflawni asesiadau o werth. Bydd hyn yn cefnogi mynediad at driniaethau sydd eu hangen yn glinigol, gan sicrhau gwerth a chanlyniadau gwell i gleifion yng Nghymru.

Amcanion

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd AWMSG yn gweithio gyda'i bartneriaid i:

- ✓ ddatblygu prosesau ar gyfer nodi meddyginiaethau sy'n addas i'w hasesu gan AWMSG
- ✓ cryfhau'r broses i sicrhau bod asesiadau'n sicrhau gwerth i'r GIG yng Nghymru
- ✓ defnyddio data'r byd go iawn i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- ✓ datblygu systemau ar gyfer casglu data canlyniadau er mwyn dangos gwerth ychwanegol i gleifion a chefnogi adolygiadau meddyginiaeth
- ✓ cydweithio â phartneriaid allweddol, gan gynnwys byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, i sicrhau bod cyngor AWMSG yn cynnig gwerth ar draws GIG Cymru.

Bydd y dangosyddion llwyddiant yn cynnwys:

- ✓ gweithredu proses asesu ehangach
- ✓ datblygu meini prawf ychwanegol i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau sy'n sicrhau gwerth
- ✓ gwell cydweithio â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, yr Uned Gwerth Meddyginiaethau a phartneriaid allweddol eraill.



Nod 5 – Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn derbyn hyfforddiant o ansawdd uchel yn y defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau

Mae'r partneriaid a fydd yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC)
- Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- Rhwydweithiau clinigol cenedlaethol (Gweithrediaeth y GIG)
- Cyrff proffesiynol
- Partneriaid yn y byd academiaidd.

Wrth i'r pwysau ar weithlu'r GIG barhau i gynyddu, mae'n hanfodol bod AWMSG yn gweithio gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i gefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i ddarparu'r gofal gorau posib.

Bydd AWMSG yn gweithio gyda'i sefydliadau partner, yn enwedig AaGIC, i nodi bylchau mewn hyfforddiant optimeiddio meddyginiaethau sydd ar gael i'r holl weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a staff cymorth. Bydd AWMSG yn gweithio i wella cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i staff GIG Cymru mewn perthynas â gweithredu cyngor, adnoddau ac arweiniad a gymeradwywyd gan AWMSG.

Drwy gydweithio â'n sefydliadau partner a datblygu'r hyfforddiant sydd ar gael ar y pwnc o ddefnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau, byddwn yn sicrhau bod gweithlu'r GIG yn elwa ac yn gwella'r defnydd diogel o feddyginiaethau i gleifion.

Amcanion

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd AWMSG yn gweithio gyda'i bartneriaid i:

- ✓ archwilio dichonoldeb darparu hyfforddiant gorfodol ar gyfer rheoli meddyginiaethau ar gyfer pob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol drwy gydweithio â AaGIC a phartneriaid yn y byd academiaidd
- ✓ gwella hyfforddiant ar gyfer presgripsiynwyr meddygol ac anfeddygol ar ddefnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau
- ✓ darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu sy'n gysylltiedig ag arfer gorau cyfredol wrth bresgripsiynu meddyginiaethau

- ✓ cydweithio ar lunio adnoddau hyfforddi sy'n gysylltiedig ag adnoddau optimeiddio meddyginiaethau a gymeradwywyd gan AWMMSG
- ✓ cefnogi a hyrwyddo rhaglenni hyfforddi ac adnoddau addysgol AaGIC
- ✓ sicrhau bod adborth o gynigion hyfforddi a datblygu yn cael ei ddefnyddio i ysgogi gwelliant dros amser.

Bydd y dangosyddion llwyddiant yn cynnwys:

- ✓ darparu gwell cynigion hyfforddiant a datblygu ar bynciau sy'n ymwneud â rheoli meddyginiaethau ar gyfer yr holl weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a staff cymorth yng Nghymru
- ✓ gwell cyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chynghor, adnoddau ac arweiniad a gymeradwywyd gan AWMMSG (e.e. Dyddiau Arfer Gorau, gweminarau ar-lein fel Dysgu dros Ginio)
- ✓ gwell cynigion hyfforddiant a datblygu yn seiliedig ar adborth defnyddwyr
- ✓ cynnydd mewn adborth cadarnhaol a gafwyd ar gynigion hyfforddi a datblygu.



Nod 6 - Mae pobl yng Nghymru yn cymryd eu meddyginiaethau mewn ffordd sy'n gwneud yn fawr o'u canlyniadau iechyd

Mae'r partneriaid a fydd yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC)
- Comisiwn Bevan
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
- Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)
- Grwpiau cleifion a'r cyhoedd (e.e. Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd AWTTC, Llais)
- Y diwydiant fferyllo
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)
- Contractwyr gofal sylfaenol
- Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (GCFC).

Mae ymlyniad wrth feddyginiaethau wedi'i ddiffinio gan NICE ([Canllaw Clinigol 76 'Ymlyniad wrth Feddyginiaethau'](#)) fel "i ba raddau yr oedd ymddygiad y claf yn cyfateb i'r argymhellion a gytunwyd gan y presgripsiynydd." Mae ymlyniad wrth feddyginiaethau yn sicrhau bod pobl yn cymryd eu meddyginiaethau mewn ffordd sy'n gwneud yn fawr o'u canlyniadau iechyd. Mae peidio ag ymlynu wrth feddyginiaethau yn parhau i fod yn rhwystr mawr i ddarparu gofal iechyd yn effeithiol a chyflawni buddion arfaethedig meddyginiaethau a

bresgripsiynwyd. Credir nad yw rhwng traean a hanner y cleifion ar driniaeth hirdymor yn cymryd eu meddyginiaethau'n gywir¹.

Mae peidio ag ymlynu wrth feddyginiaethau yn rhwstr i gleifion rhag cyflawni'r canlyniadau iechyd a fwriadwyd, a hefyd yn achosi cost economaidd sylweddol trwy feddyginiaethau a wastraffwyd (sydd hefyd yn cael effaith amgylcheddol gysylltiedig) ac, o bosib, defnydd ychwanegol o adnoddau sy'n deillio o'r galw cynyddol ar iechyd a gofal cymdeithasol pe bai iechyd y claf yn dirywio. Mae peidio ag ymlynu yn creu aneffeithlonrwydd yn y GIG ac yn lleihau'r potensial i wneud yn fawr o iechyd a gwerth y boblogaeth.

Bydd gwneud penderfyniadau ar y cyd rhwng y claf a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn hanfodol wrth oresgyn materion yn ymwneud â pheidio ag ymlynu wrth feddyginiaethau. Bydd angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol weithio'n agos gyda'u cleifion i nodi'r rhwystrau sy'n bodoli ac i ddatblygu atebion sy'n addas i'w hanghenion unigol.

Amcanion

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd AWMMSG yn gweithio gyda'i bartneriaid i:

- ✓ gydweithio â chleifion a'r cyhoedd i ddatblygu adnoddau defnyddiol a defnyddiadwy sy'n cefnogi gwelliant mewn ymlynu wrth feddyginiaethau ac yn hyrwyddo ei bwysigrwydd
- ✓ archwilio rhwystrau sy'n bodoli sy'n cyfrannu at ymlyniad gwael wrth feddyginiaethau
- ✓ datblygu a gweithredu offer gwneud penderfyniadau ar y cyd i gefnogi penderfyniadau effeithiol rhwng cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- ✓ gwella argaeledd data ar lefel cleifion y gellir ei ddefnyddio fel mesur o ymlyniad wrth feddyginiaethau.

Bydd y dangosyddion llwyddiant yn cynnwys:

- ✓ cynnydd yn nifer yr adnoddau sydd ar gael i bresgripsiynwyr a chleifion sy'n helpu i nodi rhwystrau a chefnogi gwelliant mewn ymlyniad wrth feddyginiaethau
- ✓ rhagor o ddarpariaeth o daflenni/adnoddau gwybodaeth cleifion hawdd eu darllen a'u deall i gefnogi canllawiau cymeradwy
- ✓ sicrhau bod data lefel cleifion ar gael y gellir ei ddefnyddio fel mesur ar gyfer diffyg ymlyniad.

¹Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Canllaw Clinigol 76 NICE - Ymlynu wrth feddyginiaethau: cynnwys cleifion mewn penderfyniadau am feddyginiaethau a bresgripsiynwyd a chefnogi ymlyniad. 2009 (Diweddarwyd Mawrth 2019).



Nod 7 – Lleihau gwastraff sy'n gysylltiedig â defnyddio meddyginiaethau a gwella cynaliadwyedd

Mae'r partneriaid a fydd yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC)
- Comisiwn Bevan
- Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- Y diwydiant fferyllol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)
- Contractwyr gofal sylfaenol
- Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru.

Gall sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cymryd eu meddyginiaethau'n briodol (Nod 6) gael effaith gadarnhaol ar leihau maint gwastraff meddyginiaethau, ond gellir gwneud mwy y tu allan i wella ymlyniad i sicrhau bod pob math o wastraff sy'n ymwneud â defnyddio meddyginiaethau yn cael ei leihau. Gall hyn gynnwys gwella prosesau er mwyn osgoi gorbresgripsiynu a gorarchebu meddyginiaeth, neu archwilio ffyrdd o leihau gwastraff sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau sydd wedi dod i ben a heb eu defnyddio.

Mae AWMSG hefyd eisiau gweld cynnydd sylweddol yn cael ei wneud o ran lleihau effaith amgylcheddol meddyginiaethau a gwella cynaliadwyedd, y tu hwnt i leihau maint gwastraff meddyginiaethau. Mae hyn yn cynnwys cynyddu argaeledd cynlluniau ailgylchu a gwaredu (e.e. anadlyddion) a sbarduno newidiadau mewn arferion presgripsiynu lle mae opsiynau mwy ecogyfeillgar ar gael erbyn hyn.

Amcanion

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd AWMSG yn gweithio gyda'i bartneriaid i:

- ✓ ysgogi gwelliannau mewn arferion presgripsiynu er mwyn osgoi gwastraff sy'n gysylltiedig â gorbresgripsiynu a gorarchebu
- ✓ cefnogi gwelliannau i leihau gwastraff sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau nas defnyddiwyd
- ✓ annog newidiadau mewn arferion presgripsiynu lle mae opsiynau mwy ecogyfeillgar ar gael
- ✓ gweithio gyda chleifion a'r cyhoedd i wella dealltwriaeth o effaith amgylcheddol defnyddio meddyginiaethau a gwastraff meddyginiaethau, a'r hyn y gellir ei wneud i'w gyfyngu
- ✓ archwilio datblygiad mesurau ar gyfer gwastraff meddyginiaethau fel y gallwn ddangos gwelliant.

Bydd y dangosyddion llwyddiant yn cynnwys:

- ✓ gwelliannau mewn mesurau o effaith amgylcheddol defnyddio meddyginiaethau (er enghraifft, ôl troed CO₂ sy'n gysylltiedig â defnyddio anadlyddion)
- ✓ rhagor o ddarpariaeth o daflenni ac adnoddau gwybodaeth i gleifion hawdd eu darllen a'u deall i gefnogi gostyngiad mewn gwastraff meddyginiaethau a chynyddu dealltwriaeth o bresgripsiynu sy'n fwy ecogyfeillgar.



Nod 8 – Mae manteision meddyginiaethau manwl ar sail geneteg yn cael eu gwireddu yng Nghymru

Mae'r partneriaid a fydd yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Therapiau Datblygiedig Cymru (ATW)
- Grŵp Oncoleg Genomeg Cymru Gyfan (AWGOG)
- Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS)
- Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC)
- Partneriaeth Genomeg Cymru (GPW)
- Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau
- Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC)
- Uned Gwerth Meddyginiaethau (MVU)
- Grŵp Patholeg Cenedlaethol
- Grŵp Ffarmagenomeg Cenedlaethol (NPGG)
- Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (JCC)
- Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC)
- Y diwydiant fferyllol.

Mae meddygaeth fanwl yn ddull arloesol o deilwra atal a thrin clefydau yn seiliedig ar ffactorau geneteg, amgylcheddol a ffordd o fyw. Mae'n cwmpasu ffarmagenomeg, sef yr astudiaeth o sut mae genynnau'n effeithio ar ymateb unigolyn i feddyginiaethau penodol, triniaethau canser wedi'u targedu, a therapiau niwclëig sy'n seiliedig ar asid (fel therapi genynnau). Mae meddygaeth fanwl yn defnyddio gwybodaeth foleciwlaidd, data ffenoteipig ac iechyd i wneud yn fawr o ganlyniadau cleifion.

Gan fod ymchwil drosiadol barhaus yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r dylanwadau genetig ar effeithiolrwydd a diogelwch meddyginiaethau, mae profion biofarcwyr (gan gynnwys profion sy'n seiliedig ar genomeg a phatholeg) yn cael eu defnyddio'n gynyddol i ragweld y tebygolrwydd y bydd meddyginiaeth benodol yn effeithiol. Mae gwybodaeth enetig hefyd yn cael ei defnyddio'n gynyddol i nodi meddyginiaethau aneffeithiol neu'r rheini a allai achosi niwed, o bosib, trwy adwaith niweidiol.

Mae angen i'r GIG gynllunio'n effeithiol i sicrhau bod y llwybrau, y gwasanaethau a'r trefniadau cyllido priodol ar waith i fodloni'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am feddyginiaeth fanwl. Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn gallu cefnogi mynediad amserol at brofion genetig wedi'u cymeradwyo a meddyginiaethau manwl i sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael eu trin â meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Bydd canolbwyntio triniaeth i'r rheini sydd fwyaf tebygol o elwa, ac osgoi niwed yn y rheini mwyaf agored i niwed, yn helpu i sicrhau bod y GIG yn cael y gwerth gorau o'i feddyginiaethau ac yn helpu i wella canlyniadau cleifion.

Amcanion

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd AWMSG yn gweithio gyda'i bartneriaid i:

- ✓ nodi meddyginiaethau y gellir optimeiddio eu buddion a'u risgiau o niwed trwy ddefnyddio ffarmagenomeg
- ✓ nodi meddyginiaethau manwl a fydd yn gofyn am sefydlu gwasanaethau profi biofarcwyr ychwanegol a rhoi gwybod i sefydliadau partner allweddol
- ✓ nodi meddyginiaethau manwl sy'n gofyn am newidiadau i ddarparu gwasanaethau a/neu ganllawiau ychwanegol ar gyfer darparu gwasanaethau
- ✓ datblygu systemau i gefnogi cynllunio a hwyluso'r gwaith o gyflwyno meddyginiaethau yn amserol sy'n gofyn am brofion biofarcwyr (i gynnwys profion sy'n seiliedig ar batholeg a phrofion genomig).

Bydd y dangosyddion llwyddiant yn cynnwys:

- ✓ sefydlu cysylltiadau priodol rhwng rhanddeiliaid allweddol
- ✓ rhannu gwybodaeth sganio'r gorwel ar gyfer meddyginiaethau manwl sy'n gofyn am brofion biofarcwyr rhwng yr holl bartneriaid perthnasol
- ✓ adnabod problemau sy'n ymwneud â chyflwyno meddyginiaethau sy'n gofyn am brofion biofarcwyr yn amserol.

Amcan cyffredinol – Datblygu dangosyddion llwyddiant

Oherwydd cyfyngiadau yn y ffynonellau data Cymru Gyfan sydd ar gael ar hyn o bryd, efallai y bydd angen i AWMSG fod yn arloesol o ran sut mae'n mesur llwyddiant. Mae'n hanfodol y bydd AWMSG a'i bartneriaid yn adolygu'n barhaus sut rydym yn mesur llwyddiant dros gyfnod o bum mlynedd y Strategaeth hon, ac y bydd yn defnyddio'r ffynonellau data diweddaraf a mwyaf addysgiadol sydd ar gael i ni.

Y camau nesaf

Bydd y nodau a'r amcanion a nodir yn y Strategaeth hon yn diffinio fframwaith rhaglen waith AWMSG am y pum mlynedd nesaf. Mae'r Grŵp am weld cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ar draws yr holl nodau. Cyflawnir hyn drwy ymdrech ar y cyd gan aelodau'r Grŵp i yrru a hyrwyddo eu gwaith, ond hefyd drwy gydweithio'n agos rhwng AWMSG a'r sefydliadau partner allweddol a enwir drwy gydol y ddogfen hon.

Gofynnir i bob sefydliad partner ystyried y Strategaeth hon wrth ddiffinio eu blaenoriaethau a'u rhaglenni gwaith eu hunain dros y pum mlynedd nesaf. Bydd AWMSG yn rhoi cyfle i'r sefydliadau hynny roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd a helpu i hyrwyddo'r gwaith caled y maent yn ei wneud. Bydd y diweddariadau hyn hefyd yn cael eu defnyddio i dynnu sylw at unrhyw rwystrau i weithredu a chyflawni pob un o'r amcanion; gydag AWMSG yn anelu i'w cefnogi i ddatblygu atebion a hwyluso cydweithio â phartneriaid eraill.

Bydd cydweithio rhwng AWMSG a'i bartneriaid yn ganolog i allu cyflawni uchelgeisiau'r Strategaeth hon, a bydd angen i'r cydweithio hwnnw fod o fudd i bob parti. Gofynnir i bob sefydliad partner ein helpu i gyflawni ein uchelgeisiau, ond hefyd ystyried sut y gall AWMSG eu helpu i gyflawni eu gweledigaeth ar gyfer yr hyn y dylai GIG Cymru ei gyflawni ar gyfer cleifion a'r cyhoedd.

Mae AWMSG am i'r Strategaeth hon allu newid ac esblygu dros amser fel y gallwn addasu i heriau'r dyfodol ac adlewyrchu anghenion y gwasanaeth a chleifion ar unrhyw adeg benodol. Gweithiwch gyda ni fel y gallwn sicrhau bod ein hadnoddau bob amser yn cael eu cyfeirio at y meysydd hynny lle gallwn gael yr effaith fwyaf, fel y gallwn gyflawni ein gweledigaeth i:

“wella iechyd a lles pobl yng Nghymru drwy alluogi cleifion i gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau”.



Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group